Llamau

Imagine a World Without Homelessness

Head Office
23-25 Cathedral Road
Cardiff
CF11 9HA

029 2023 9585
www.llamau.org.uk

4th December 2024

Dear Buffy,

We are writing to you in your role as Chair of the Children, Young People and Education Committee and attach a copy of our response to the Finance Committee's consultation on the budget. The vast majority of the services Llamau provide across Wales support children and young people, and we felt it important for your committee to hear our concerns and pleas for the new Budget from 2025-2026. We also deliver a number of services in your constituency that support young people, women and children.

We are extremely concerned about the financial situation charities like Llamau are being placed in. Charities across Wales are going to be hugely impacted by the UK Government's budget decision to increase National Insurance Employer contributions. Whilst I appreciate this is not a Welsh Government decision, the impact of this decision will be felt throughout Wales. The NI Employer Contribution will cost Llamau an additional £500k per annum from April 2025.

With nearly all commissioned services not paying full cost recovery, charities like Llamau simply cannot manage without additional funding to meet these costs. If services or charities close, the pressure on public services will hugely increase.

A recent Cymorth Cymru survey of homelessness and housing support providers in Wales found that a failure to increase the Housing Support Grant would result in 74% of providers likely to reduce service capacity, 61% unlikely to bid for new or retendered contracts and 47% likely to hand back existing contracts. This survey was conducted before the UK Government Autumn Budget, and there are now significant concerns that the increase in National Insurance contributions have the potential to push these support providers over the edge.

Llamau were delighted last year, when the Welsh Government Budget increased Housing Support Grant by £13million to allow the sector to finally move towards paying Real Living Wage. At Llamau we were able to use this money to achieve the then current Real Living Wage rates; however, without an additional increase to Housing Support Grant in the Welsh Government Budget for 2025/2026, we will not be able to maintain this. Last year's increase was the first increase in 15 years.

Llamau

Imagine a World Without Homelessness

The work of Llamau and the homelessness and housing support sector more generally, can demonstrate a positive lifelong impact on the people we support, helping them leave homelessness behind for good and enabling them to become economically active and financially independent. For example, at our Impact Event at the Senedd last month, a young man spoke who we supported over 12 years ago when he was 15. Our support lasted for around 3 years and included providing him with safe and secure supported accommodation as well as attending our education and training provision. We then helped him move into his own accommodation, where he still lives and supported him to access employment. He has been employed ever since.

Without an increase to our funding, to allow us to recruit and retain colleagues on an acceptable wage, services will end and again the people most need in Wales will suffer.

We sincerely hope that the forthcoming Welsh Government budget for 2025/2026 contains the following to ensure our sector both continues to support individuals to leave homelessness behind for good, and allows charities and support providers to continue supporting the pressures on public sector services:

- Provide additional funding to cover the additional National Insurance costs facing charities providing Housing Support Grant and other Welsh Government or local authority funded homelessness, housing support and Social Services contracts in Wales.
- Provide additional funding to allow charities delivering these services to maintain Real Living Wage salaries.

We desperately need your and the committee's support. Without an uplift to the Housing Support Grant for the financial year 2024/25, there is a real risk of services collapsing and vulnerable people being left with nowhere and no one to turn to.

I would also like to take this opportunity to invite you and/or committee members to visit some of our services and meet with incredible young people and women who are being supported by Llamau to overcome homelessness.

Best wishes,

**Sam Austin, Frances Beecher**

**Chief Executives, Llamau**

Llamau
Imagine a World Without Homelessness

**Cyflwyniad Llamau i'r Pwyllgor Cyllid:**

**Cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2025-26**

**Cyflwyniad**

Mae gwasanaethau digartrefedd a chymorth tai yng Nghymru yn parhau i wynebu pwysau sylweddol. Mae'r galw am wasanaethau Llamau wedi cynyddu'n sylweddol, a chyda hynny, gynnydd yn nifer y bobl ifanc, menywod a phlant yr ydym yn eu cefnogi sy'n cyflwyno anghenion cymorth cymhleth iawn. Mae ein cyllid ar gyfer 'Cymorth sy'n Gysylltiedig â Thai', ac eto rydym yn parhau i ddarparu cymaint mwy na hynny, nad yw wedi'i gynnwys yn y contractau presennol nac yn cael eu talu amdano. Mewn rhai achosion, y gwaith hwn sydd yn llythrennol yn cadw pobl sydd â hanes o hunan-niweidio difrifol, neu ymdrechion i gyflawni hunanladdiad, yn fyw.

Roedd cyllideb derfynol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024/25 cynnwys codiad o £13 miliwn i'r Grant Cymorth Tai (HSG), ar ôl dyrannu cyllid gwastad i ddechrau. Roeddem yn falch bod Gweinidogion wedi gwrando ar yr achos cymhellol i ddod o hyd i adnoddau ychwanegol, a oedd yn cyfateb i gynnydd o 7.8% ers y flwyddyn flaenorol. Defnyddiwyd llawer o hyn i fynd i'r afael â phwysau cyflog, yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth y dylid talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i bob aelod o staff rheng flaen. Fodd bynnag, wrth wynebu heriau eu hunain o ran ariannu gwasanaethau statudol, nid oedd contractau Awdurdod Lleol yn cwmpasu hyn yn llawn. (Gweler yr adran Llesiant a Chadw Staff).

Nodwn fod diweddariad hydref y Bwrdd Cynghori Cenedlaethol Rhoi Terfyn ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd ar 23ain Hydref 2024, yn datgan, er gwaethaf yr heriau ariannol parhaus sy'n wynebu'r Llywodraeth, 'Mae aelodau'r Bwrdd wedi mynegi'r angen i ddiogelu'r enillion a wnaed yn y setliad cyllidebol diwethaf a pharhau i fuddsoddi yn HSG a'r gweithlu'.

Mae rhesymau clir am hyn. Mae cost darparu gwasanaethau wedi cynyddu'n sylweddol a thelir llawer o'n contractau rhwng 20% a 30% yn llai na'r gost wirioneddol ar gyfer ariannu'r gwasanaethau hyn. Rydym eisoes yn rhoi cymhorthdal i gontractau gwerth isel drwy ein gweithgareddau codi arian elusennol ein hunain, ond mae hyn yn dod yn fwyfwy heriol wrth i fusnesau ac unigolion wynebu eu hanawsterau eu hunain. Mae ein hymdrechion codi arian drwy ymddiriedolaethau a sefydliadau yn gyfyngedig oherwydd maint trosiant Llamau.

Yn ogystal, bydd y cyhoeddiad diweddar yng nghyllideb y DU y bydd y swm y mae'n rhaid i ni ei dalu ar gyfraniadau yswiriant gwladol cyflogeion yn cynyddu o 13.8% i 15% o fis Ebrill 2025, yn effeithio'n sylweddol ar sefydliadau trydydd sector ledled Cymru, gan gostio £500,000 ychwanegol i Llamau y flwyddyn nesaf yn unig.

Llamau

Imagine a World Without Homelessness

**Cynnydd yn y galw am wasanaethau:**

Yn gyffredin â sefydliadau ar draws y sector, bu cynnydd yn y galw am ein gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, cyrhaeddodd Llamau dros 11,000 o bobl ifanc, menywod a phlant ar draws yr holl wasanaethau. Mae hyn yn cynnwys:

- Dros 5,500 o bobl gan gynnwys plant a gefnogir gan wasanaeth cam-drin domestig Llamau
- Dros 5000 o bobl ifanc yn cael eu cefnogi gan ein hystod o wasanaethau Ymyrraeth Gynnar ac Atal, Cartref Diogel a Symud Ymlaen
- Cefnogwyd dros 200 o bobl, gan gynnwys plant, gan lochesi cam-drin domestig Llamau
- Cefnogwyd dros 1500 o bobl ifanc gan wasanaethau cymorth fel y bo'r angen Llamau
- Cefnogwyd dros 500 o bobl ifanc a oedd mewn perygl o fod yn ddigartref drwy lety â chymorth Llamau ar gyfer gwasanaethau ieuenctid ledled Cymru
- Cefnogwyd dros 300 o bobl ifanc gan Wasanaeth Cyfryngu Teuluol Llamau
- Cefnogwyd bron i 1,000 o blant gan wasanaethau Ôl-drafod a Chyfryngu Llamau ar gyfer plant coll yng Ngwent a Dyfed Powys
- Derbyniodd dros 500 o bobl ifanc gyngor a chefnogaeth arbenigol, gan gynnwys trwy'r Llinell Gymorth Ieuenctid Digartref.
- Cefnogwyd bron i 400 o bobl ifanc drwy raglenni Dysgu, Hyfforddiant a Chyflogaeth Llamau
- Cefnogwyd dros 1700 o bobl a phlant gan ystod o Wasanaethau Allgymorth Cam-drin Domestig Llamau
- Cefnogwyd 36 o bobl ifanc ag anghenion cymhleth yn ein hystod o brosiectau Tai yn Gyntaf i Ieuenctid ledled Cymru
- Nodwyd bron i 550 o bobl mewn perygl ac fe'u cefnogwyd gan ein gwasanaeth IRIS
- Ymgysylltodd dros 300 o bobl â'n gwasanaethau cwnsela arbenigol

Mae atgyfeiriadau wedi parhau i gynyddu ar gyfer lleoedd lloches ar draws Llamau, gyda 296 o atgyfeiriadau ar gyfer ein 67 o leoedd yn 2023/24. Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gynyddu capasiti trwy agor 3 lloches gwasgaredig, 2 yn CBS Merthyr ac 1 yn CBS Caerffili. Roedd y galw am leoedd yn golygu nad oeddem yn gallu darparu ar gyfer 187 o atgyfeiriadau, yn bennaf oherwydd nad oedd lle ar gael, yn anaddas ar gyfer anghenion y person, neu fod ardal risg yn rhy agos at loches. Yn y gymuned, derbyniodd ein gwasanaethau Cymorth fel y bo'r Angen 475 o atgyfeiriadau, cynnydd o 20% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Mae Llinell Gymorth Ieuenctid Digartref Llamau yn parhau i ddarparu cymorth y tu allan i oriau i bobl ifanc sy'n ddigartref neu mewn perygl o fod yn ddigartref. Mae nifer y galwadau wedi cynyddu'n sylweddol ers y llynedd fodd bynnag – cynnydd o 81% ar y 157 o alwadau a dderbyniwyd yn ystod 2022/23.

**Llesiant a chadw staff**

Mae recriwtio a chadw cydweithwyr yn parhau i fod yn her i'r sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac i Llamau. Mae galw cynyddol a chymhlethdod anghenion cymorth, ynghyd â chyllid cyfyngedig, yn effeithio ar lesiant a salwch staff. Rydym yn gweithio gyda llawer mwy o bobl ifanc a menywod ag anghenion iechyd meddwl sylweddol uwch, gan gynnwys hunan-niweidio difrifol a syniadaeth hunanladdiad. Am y tro cyntaf erioed, rydym yn gweld llawer o bobl ifanc rydym yn eu cefnogi yn cario arfau ac yn bygwth staff. Yn ogystal, rydym yn colli cydweithwyr sydd wedi'u hyfforddi'n dda i Awdurdodau Lleol, sy'n sefydlu gwasanaethau 'mewnol', ac yn cynnig 10% yn fwy o ran cyflog.

Mae cyfradd trosiant staff yn parhau i fod yn llawer uwch nag yr oedd cyn y pandemig Covid ond mae wedi aros yn ei unfan dros y flwyddyn ddiwethaf. Rydym wedi gorfod dechrau dibynnu ar staff asiantaeth wrth i ni recriwtio - gan arwain at gostau uwch (heb eu cwmpasu gan gontractau) ac ansawdd is. Rydym wedi parhau i wneud gwelliannau i'n prosesau recriwtio, ymuno a chynefino ond nid yw costau gwasanaethau HSG yn cynnwys cyflogau llawn, yr hyfforddiant angenrheidiol, na gwasanaethau PIE er enghraifft, er bod yn rhaid i ni ddangos pob un o'r rhain wrth archwilio a thendro/aildendro.

Yn dilyn y cynnydd i'r HSG yn y gyllideb derfynol ar gyfer 2024/25, roedd disgwyliad clir gan y Llywodraeth y dylid defnyddio hwn i fynd i'r afael â phwysau cyflog a chynorthwyo comisiynwyr i gefnogi darparwyr i gyflawni'r ymrwymiad i Waith Teg a'r Cyflog Byw Gwirioneddol. Ar hyn o bryd mae Llamau yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'r holl staff, ond nid yw hyn wedi'i gynnwys yn y contractau a bu'n rhaid iddo gael cymhorthdal drwy ymdrechion codi arian a thrwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. Er mwyn cynnal y cynnydd Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer 25/26, ochr yn ochr â chostau ychwanegol codiadau i Gyfraniadau Cyflogwyr Yswiriant Gwladol, bydd hyn yn costio tua £1.5miliwn i Llamau. Nid yw hyn yn gynaliadwy aheb arian ychwanegol i'r sector ar gyfer 25/26, ni allwn dalu'r costau hyn.

Mae Cyflog Byw Gwirioneddol, cyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwr yn codi, a chynnydd chwyddiant yn golygu y byddai angen cynnydd o 7.9% mewn cyllid HSG i ddiwallu'r costau hyn. Os na fydd cynnydd o'r fath yn gysylltiedig â chwyddiant mewn contractau a ariennir gan HSG y flwyddyn nesaf, mae'n debygol y bydd yn rhaid i ni leihau capasiti'r gwasanaeth, gadael swyddi staff yn wag heb eu llenwi ac o bosibl ddiswyddo staff. Heb gymorth pellach i sicrhau cyflogau teg i'n staff, mae'n sicr na fyddem yn gallu talu Cyflog Byw Gwirioneddol ar gyfer 25/26 ac mae'n annhebygol y byddem yn gallu dyfarnu *unrhyw* godiadau cyflog i gydweithwyr yn y sefydliad.

**Mae dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â gwariant ataliol yn cael ei gynrychioli mewn dyraniadau adnoddau (Gwariant ataliol = gwariant sy'n canolbwyntio ar atal problemau ac yn lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol drwy ymyrryd yn gynnar).**

Mae comisiynwyr yn dweud wrth y sector yn gyson bod gwasanaethau atal mewn perygl wrth iddynt wynebu eu heriau ariannu eu hunain a maent yn teimlo bod angen iddynt ganolbwyntio cyllid ar ymyriadau mewn argyfwng. Mae hon, yn ein

barn ni, yn economi ffug gan fod y gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar yn arbed arian yn y tymor hwy, fel y dengys yr enghreifftiau hyn:

- Gall cyfryngu atal y berthynas deuluol rhag chwalu mewn modd cynaliadwy a'r argyfwng costus o ddigartrefedd i berson ifanc; arbed dros £27,000 y person mewn costau llety â chymorth arbenigol.
- Dangosir yn gyson mai tor-perthynas teuluol yw prif ysgogydd digartrefedd ieuenctid. Gall ymyrraeth gynnar wedi'i thargedu fel ein gwasanaethau cyfryngu alluogi pobl ifanc i aros yn ddiogel yn eu cartref teuluol yn llwyddiannus; atal costau sylweddol llety dros dro amhriodol yn aml – dangoswyd ei fod wedi dyblu yng Nghymru yn y 5 mlynedd diwethaf i dros £40m.
- Mae cefnogi unigolyn i reoli ei iechyd meddwl yn well trwy ein gwasanaethau arbenigol fel cwnsela yn cael effaith ddofn ar eu hapusrwydd ac ansawdd eu bywyd. Mae bron i £5 biliwn yn cael ei golli drwy lai o gynhyrchiant a chostau gofal iechyd yng Nghymru bob blwyddyn.
- Trwy hwyluso ail-ymgysylltu ag addysg ac atal gwaharddiadau, gall ein gwasanaethau allgymorth EMPHASIS arbed tua £370,000 i'r wladwriaeth mewn addysg gydol oes, budd-daliadau, gofal iechyd a chostau cyfiawnder troseddol.

Mae'r diffyg gwariant ataliol yn brin o ragwelediad. Gall gymryd rhai blynyddoedd i raglenni atal weithio a lleddfu'r galw ar wasanaethau yn y dyfodol, felly yn ystod argyfwng ariannu yn aml dyma'r meysydd gwariant cyntaf i gael eu torri – er y bydd yn arwain at wariant uwch yn y dyfodol.

**A yw'r cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i sefydliadau trydydd sector, sy'n wynebu mwy o alw am wasanaethau o ganlyniad i'r argyfwng costau byw a'r pandemig, yn ddigonol?**

Fel y nodir uchod, rydym wedi gweld cynnydd yng nghymhlethdod anghenion a risg ar gyfer y bobl ifanc rydym yn eu cefnogi, gyda mwy o brofiad o drawma ac anghenion iechyd meddwl a lles cysylltiedig. Mae hyn ar adeg pan fo cymorth gan asiantaethau eraill yn fwy anodd ei gyrchu.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae nifer y menywod sy'n wynebu digartrefedd oherwydd cam-drin domestig hefyd wedi codi. Mae hyn wedi'i gyplysu ag arafu yn argaeledd eiddo symud ymlaen i fenywod a theuluoedd oherwydd galw digynsail am lety, a phwysau digartrefedd mwy cyffredinol.

Dim ond nawr mae rhai o effeithiau tymor hwy y pandemig yn dod yn amlwg o ran nifer yr achosion hynod gymhleth sy'n cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth fel ein rhai ni.

**Casgliad**

Mae Llamau bob amser wedi ymdrechu i ddarparu gwasanaethau cymorth effeithiol o ansawdd uchel ac mae effaith ein gwaith yn lleihau'r pwysau ar wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru. Fodd bynnag, mae'n anodd gweld sut y gellir cynnal y gwasanaethau hyn ar y lefel bresennol heb gynnydd sylweddol yn

y cyllid drwy'r HSG. Mae'r sector cyfan yn cael trafferth gyda galw cynyddol, cymhlethdod anghenion a diffyg cyllid i dalu'n iawn am gost y gwasanaethau a ddarperir.

Yn syml, nid oes unman arall i droi ato o ran arbed costau.